

HealthNet

Yn Gweithio mewn partneriaeth â NHS

Croeso i **HealthNet**

# Canllaw Croeso i Gleifion

**Cadwch hwn mewn man diogel er mwyn i chi allu cyfeirio'n ôl ato pan fydd angen.**
Mae fersiwn Saesneg o'r canllaw hwn ar gael yma:
healthnethomecare.co.uk/patient-resources/welcome-guide →

healthnethomecare.co.uk →

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall sut mae eich gwasanaeth gofal yn y cartref yn gweithio a beth i'w ddisgwyl drwy gydol eich triniaeth.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg: Eich Gwasanaeth Gofal yn y Cartref HealthNet | 04 |
| Croeso i HealthNet | 08 |
| Beth ydy Gofal Clinigol yn y Cartref? | 11 |
| Eich Taith gyda HealthNet | 14 |
| Rheoli'ch Gwasanaeth | 24 |
| Eich Danfoniadau – Beth i'w Ddisgwyl | 32 |
| Sut i Storio'ch Meddyginiaeth yn Ddiogel | 40 |
| Gwasanaeth Nyrsio | 46 |
| Gofal o Ansawdd | 50 |
| Sut i leisio pryder neu roi adborth i ni | 56 |
| Eich Cyfrifoldebau | 61 |
| Preifatrwydd | 65 |
| Cysylltwch â Ni | 66 |





# Eich Gwasanaeth Gofal yn y Cartref **Canllaw Croeso**





# Cipolwg:
# Eich Gwasanaeth Gofal yn y Cartref HealthNet

Canllaw cyflym i'r pethau pwysicaf y mae angen i chi eu gwybod


Gallwch weld rhagor o fanylion yn yr adrannau llawn sy'n dilyn.

## Pwy Ydyn Ni

Mae HealthNet yn gweithio gyda'r GIG i ddarparu eich triniaeth yn ddiogel gartref.

Rydyn ni'n darparu danfoniadau meddyginiaeth, cefnogaeth nyrs (os oes angen), ac offer i'ch helpu chi i reoli'ch triniaeth yn rhwyddach.

## Beth Gallwch Chi Ei Ddisgwyl



+ Danfon eich meddyginiaethau yn ddiogel
  Fe'u hanfonir yn uniongyrchol i'ch cartref (neu gyfeiriad
  arall a gytunwyd) mewn pecynnau diogel â'u tymheredd wedi'i reoli.
+ Ymweliadau nyrs (os oes angen hynny ar gyfer eich triniaeth)
  Gall penodiadau ddigwydd gartref neu drwy alwad fideo.
+ Cefnogaeth pryd bynnag y bydd angen arnoch chi
  Mae ein Tîm Cefnogi Cleifion a'n Tîm Fferyllol yma i helpu gyda chwestiynau, danfoniadau ac eitemau anfeddygol.

## Dechrau Arni



### 01 Atgyfeiriad gan eich ysbyty

Mae eich tîm yn yr ysbyty yn anfon eich presgripsiwn a'ch manylion cysylltu at HealthNet.

### 02 Neges groeso

Byddwch chi'n derbyn eich rhif HealthNet CT a dolen ar gyfer archebu eich danfoniad cyntaf.

### 03 Archebu eich danfoniad

Defnyddiwch y Ddolen Untro (OTL), ap myHealthNet, y Porth Cleifion, neu ffoniwch ni.

## Rheoli eich Danfoniadau


Sganiwch y Cod QR i gael lawrlwytho'r ap myHealthNet.

Gallwch chi drefnu danfoniadau drwy ddefnyddio:

+ Ap myHealthNet
+ Porth Cleifion
+ Dolen Untro (OTL)
+ Ffôn

Mae lawrlwytho ap myHealthNet yn ei gwneud yn gyflymach ac yn haws fyth i chi reoli eich meddyginiaeth - lawrlwythwch yr ap o'r App Store neu Google Play.

## Cyn Pob Danfoniad



Byddwn ni bob amser yn:

+ Gwirio gweddill eich stoc o feddyginiaethau
+ Cadarnhau eich cyfeiriad danfon
+ Darparu ffenestr ddanfon (lle bydd un ar gael)

Bydd angen i chi neu berson awdurdodedig (16+) lofnodi am y danfoniad.

Parhad

# Cipolwg:
# Eich Gwasanaeth Gofal yn y Cartref HealthNet

## Cefnogaeth Nyrsio (Os Oes Angen)



Gall ein nyrsys:

- Ymweld â chi gartref
- Darparu hyfforddiant ar roi pigiadau
- Darparu triniaeth
- Cynnig penodiadau o bell drwy Microsoft Teams

Bydd ein Tîm Clinigol yn cysylltu â chi yn uniongyrchol i drefnu eich penodiad cyntaf.

## Eich Cyfrifoldebau



I helpu i gadw'ch triniaeth yn ddiogel ac ar amser, byddwch cystal â:

- Bod ar gael ar gyfer danfoniadau a phenodiadau nyrsys
- Cadw at eich penodiadau ysbyty
- Storio'ch meddyginiaeth yn gywir
- Rhoi gwybod i ni ar unwaith os bydd eich manylion yn newid
- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau gyda'ch meddyginiaeth neu'ch dyfais



## Sut i Gael Help

Tîm Cefnogi Cleifion: 0800 083 3060
E-bost: enquiries@healthnethomecare.co.uk

Tîm Nyrsio: 0800 083 3060
E-bost: nursingenquiries@healthnethomecare.co.uk

Os byddwch chi'n profi sgil-effeithiau, cysylltwch â'ch tîm yn yr ysbyty neu'ch meddyg teulu ar unwaith.

## Eich Preifatrwydd

Rydyn ni'n diogelu eich gwybodaeth bersonol yn ofalus.

Rhagor o fanylion: [www.healthnethomecare.co.uk/privacy-policy](https://www.healthnethomecare.co.uk/privacy-policy)

I gael gwybodaeth fwy manwl am unrhyw un o'r pwyntiau hyn, cyfeiriwch at yr adran yn y prif ganllaw.

# Croeso i **HealthNet**

Mae'r Canllaw Croeso hwn wedi'i lunio i'ch helpu i ddeall pwy ydyn ni, sut mae eich gwasanaeth gofal clinigol yn y cartref yn gweithio, a beth gallwch chi ei ddisgwyl gennym ni. Yn y canllaw, fe welwch chi atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin mae cleifion yn eu gofyn wrth ddechrau gyda HealthNet.

Os bydd gennych gwestiynau o hyd ar ôl darllen y canllaw hwn, ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

# Pwy Ydyn Ni – HealthNet

Mae HealthNet yn gwmni gofal clinigol yn y cartref sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r GIG er mwyn dod â gofal o ansawdd yn uniongyrchol i'ch cartref. Mae ein nod yn un syml: ei gwneud hi'n haws ac yn fwy cyfforddus i chi reoli eich triniaeth, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gweddu'n well i'ch bywyd pob dydd.

Rydyn ni'n credu y dylai gofal iechyd fod yn hygyrch, yn gyfleus, ac yn dosturiol. Dyna pam mae popeth a wnawn ni wedi'i gynllunio er mwyn eich cefnogi chi mewn modd diogel a dibynadwy gartref.



## Beth Ydyn Ni'n Ei Wneud

Mae HealthNet yn darparu gwasanaeth gofal clinigol yn y cartref i gleifion ledled y Deyrnas Unedig.

Mae hyn yn cynnwys:

- Danfon eich meddyginiaethau yn ddiogel ac ar amser

Gan ddefnyddio cerbydau diogel, heb eu brandio, sydd â'u tymheredd wedi'i reoli.

- Cefnogaeth nyrsio ar gyfer triniaethau arbenigol

Pan fydd angen i'ch meddyginiaeth gael ei roi gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig.

- Hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer hunanfeddyginiaethu

Eich helpu chi i deimlo'n hyderus ynglŷn a rhoi pigiadau neu driniaethau i'ch hun gartref.

- Rhaglenni cefnogi cleifion wedi'u teilwra

Yn cynnig cymorth ychwanegol gyda rheoli eich cyflwr a chadw at eich triniaeth.

Ein nod ydy gwneud eich triniaeth yn haws, ac yn fwy cyfforddus - er mwyn i chi gael canolbwyntio ar fywyd, nid ar logisteg.



## Arloesi Digidol

Rydyn ni'n defnyddio offer digidol clyfar i'w gwneud hi'n hawdd i chi reoli eich triniaeth heb straen:

+ Ap myHealthNet, Porth Cleifion, Dolen Untro (OTL)
  Archebwch neu cadwch olwg ar ddanfoniadau, diweddarwch eich manylion, ac edrychwch ar wybodaeth am eich meddyginiaethau.
+ Cyfathrebu diogel
  Derbyniwch ddiweddariadau am ddanfoniadau, dolenni i benodiadau, a negeseuon atgoffa drwy e-bost, WhatsApp neu SMS.
+ Penodiadau nyrsys o bell
  Lle bo'n briodol, mae modd cynnal ymgynghoriadau drwy Microsoft Teams i wneud pethau'n fwy hyblyg.
+ Gofal sy'n cael ei lywio gan ddata
  Mae ein systemau diogel yn helpu i sicrhau bod eich triniaeth yn parhau yn esmwyth ac yn ddiogel.

# Beth Ydy **Gofal Clinigol yn y Cartref?**

Mae gofal clinigol yn y cartref yn golygu y byddwch chi'n derbyn eich meddyginiaeth neu'ch triniaeth gartref yn hytrach na mynd i'r ysbyty.

Mae eich gofal yn dal i gael ei oruchwylio gan eich tîm yn yr ysbyty, ond mae'r gefnogaeth ddydd-i-ddydd - megis danfon meddyginiaeth ac ymweliadau nyrsys - yn cael ei darparu gan HealthNet.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan weithwyr iechyd proffesiynol hyfforddedig ac yn cael ei gefnogi gan systemau danfon diogel ac offer digidol, gan wneud eich triniaeth yn gyfleus a'i theilwra i'ch anghenion.

## Sut Mae Gofal Clinigol yn y Cartref yn Helpu Cleifion

+ Cysur a Hwylustod

Cewch chi osgoi teithiau hir, parcio ac ystafelloedd aros - mae eich triniaeth yn dod atoch chi.

+ Rhagor o Amser i Chi

Mae treulio llai o amser yn teithio neu'n mynychu penodiadau yn golygu mwy o amser i'r teulu, gwaith a diddordebau,

+ Safonau Gofal Uchel

Mae gofal yn y cartref yn cael ei ddarparu gan nyrsys a fferyllwyr cymwys gan ddilyn safonau llym y GIG a rheoleiddwyr

+ Lleihau straen

Mae derbyn gofal gartref yn teimlo'n brafiach ac yn ymyrryd llai ar eich bywyd.

+ Cefnogi annibyniaeth


Galwch chi barhau â'ch trefniadau arferol tra byddwch chi'n rheoli eich cyflwr.

+ Gwella'r profiad

Mae llawer o gleifion yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth a'u bod yn cael gwell cefnogaeth pan fydd eu gofal yn digwydd gartref.

Parhad

# Beth ydy
# Gofal Clinigol yn y Cartref?



## Sut Mae Gofal Clinigol yn y Cartref yn Helpu'r GIG

+ Mae'n lleihau'r angen am ymweliadau ysbyty i gleifion, ac yn helpu'r GIG i ryddhau amser a lle ar gyfer gofal brys ac arbenigol
+ Mae'n cynorthwyo cleifion i dderbyn triniaeth gartref, ac yn helpu'r GIG i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon na gofal mewn clinigau
+ Mae'n helpu cleifion i gadw at eu triniaethau drwy gefnogaeth hygyrch, ac yn gwella canlyniadau a boddhad ar draws gwasanaethau'r GIG.

Os oes gennych ddiddordeb mewn edrych ymhellach ar y pwnc hwn, rydym yn argymell y dylech ddarllen erthygl Adroddiad clinicalhomecare.org → y Gymdeithas Gofal Clinigol yn y Cartref Genedlaethol (NCHA).

## Ein Haddewid i Chi

Yn HealthNet, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'ch tîm yn yr ysbyty i sicrhau bod eich triniaeth yn ddiogel, yn esmwyth, ac yn ddi-straen. Boed hynny'n ymweliad gan nyrs, danfoniad meddyginiaeth, neu gefnogaeth ddigidol, rydyn ni yma i'ch helpu chi ar bob cam o'r ffordd.

Croeso i'ch gwasanaeth HealthNet - rydyn ni yma i chi.



# Eich Taith gyda **HealthNet**

Rydyn ni yma i wneud eich triniaeth yn syml, yn gefnogol, ac yn gyfleus.

Dyma beth gallwch ei ddisgwyl ar bob cam o'r ffordd:




# Atgyfeirio a Phresgripsiwn

Yn ystod eich penodiad yn yr ysbyty, bydd eich meddyg ymgynghorol, nyrs arbenigol neu fferyllydd yn esbonio gofal clinigol yn y cartref ac yn ateb unrhyw gwestiynau
fydd gennych.

Os byddwch chi'n dewis gofal yn y cartref, bydd eich tîm yn yr ysbyty yn anfon eich presgripsiwn a'ch manylion cysylltu at HealthNet.

**Faint o amser mae'n ei gymryd?**

Gall gymryd hyd at 2 wythnos i'ch presgripsiwn a'ch ffurflen gofrestru ein cyrraedd ni a chael eu gwirio gan ein Tîm Fferyllol.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser.

Darllenwch fwy am sut rydyn ni'n diogelu eich data: healthnethomecare.co.uk/privacy-policy →

Parhad

# Eich Taith gyda HealthNet






## Neges Groeso

O fewn 2-5 diwrnod wedi i HealthNet dderbyn eich presgripsiwn, byddwch chi'n derbyn neges groeso drwy e-bost, testun (SMS), WhatsApp, neu alwad ffôn yn cynnwys:

+ Cyflwyniad i'r gwasanaeth
+ Eich rhif cyfrif 'CT'.
+ Dolen i'ch Canllaw Croeso digidol




# Archebu Eich Danfoniad Cyntaf

I drefnu eich danfoniad cyntaf, byddwch chi'n derbyn Dolen Untro (OTL) drwy neges destun (SMS) neu WhatsApp.

Mae'r OTL yn ddolen ddiogel, unigryw fydd yn eich galluogi i ddewis pa ddyddiad a ffenestr amser sydd orau gennych ar gyfer cael eich meddyginiaeth newydd wedi'i danfon - heb fod angen mewngofnodi.

Ar gyfer rheoli'r holl ddanfoniadau yn y dyfodol, rydym yn argymell y dylech lawrlwytho ap myHealthNet. Mae'n eich galluogi i ddiweddaru eich manylion personol, archebu, newid neu ganslo danfoniadau, cadw llygad ar eich archeb a'ch presgripsiwn mewn amser real, a gwneud ceisiadau am eitem anfeddygol ychwanegol megis biniau cyfarpar miniog, weips, a nodwyddau.

+ Ceir rhagor o wybodaeth am ein hoffer digidol yn ddiweddarach yn canllaw hwn.

> Gair i Gall: Archebwch yn gynnar er mwyn gwneud yn siŵr y byddwch chi'n derbyn eich meddyginiaeth mewn da bryd.



Byddwch chi hefyd yn derbyn eich rhif cyfrif claf HealthNet (rhif CT), wedi'i argraffu ar bob gohebiaeth.

Mae'r rhif hwn yn cychwyn gyda "CT" ac mae ei angen er mwyn cofrestru ar gyfer y Porth Cleifion ac ap myHealthNet.

> Nodwch: Os bydd y feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi ar bresgripsiwn i chi yn newid, efallai y cewch chi rif CT newydd - byddwn ni wastad yn rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn digwydd.

Parhad

# Eich Taith gyda HealthNet






## Hysbysiad Danfoniad

Y noson cyn eich danfoniad, byddwch chi'n derbyn e-bost, WhatsApp, neu neges destun (SMS) gyda ffenestr ddanfon 2-awr.

Os nad oes gennych chi rif ffôn symudol neu gyfeiriad e-bost i dderbyn yr hysbysiadau hyn, byddwn ni'n cysylltu â chi drwy alwad ffôn.

> Nodwch: Mae rhai ardaloedd yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio partneriaid cludo na fyddant, o bosib, yn darparu ffenestr 2-awr.




# Danfon

Bydd eich meddyginiaeth yn cael ei ddanfon gan HealthNet mewn cerbyd â'i dymheredd wedi'i reoli neu gan gwmni cludo sydd wedi'u cymeradwyo.

+ Gall danfoniadau fynd i'ch cartref neu i leoliad arall a gytunwyd.
+ Bydd angen i chi (neu rywun rydych chi'n eu hawdurdodi) lofnodi am y parsel



Bydd danfoniadau yn y dyfodol yn dod fesul cyfnod yn unol â'r hyn a osodwyd gan eich tîm gofal iechyd.

Pan fydd eich archeb feddyginiaeth nesaf yn barod i'w harchebu, byddwch chi'n cael gwybod er mwyn eu trefnu drwy:

+ Ddolen Untro (OTL)
+ Ap myHealthNet
+ Porth Cleifion
+ Tîm Cefnogi Cleifion

Yn unol â'r gofyn gan y GIG, byddwn ni wastad yn gofyn i chi gadarnhau eich lefelau stoc presennol cyn trefnu rhagor o feddyginiaethau.

Cofiwch gadw'ch manylion cysylltu yn gyfoes, gan gynnwys eich cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Gallwch chi ddiweddaru'r rhain drwy'r Porth Cleifion neu ap myHealthNet neu drwy'n ffonio ni.

Parhad

# Eich Taith gyda **HealthNet**




## Cefnogaeth Nyrsio (Os oes angen)

Os ydy'ch tîm gofal iechyd wedi gwneud cais am gefnogaeth nyrs, gallai hynny gynnwys:

+ Eich hyfforddi chi i hunanfeddyginiaethu
+ Ymweliadau parhaus gan nyrs i roi triniaeth

Bydd aelod o'n Tîm Clinigol yn cysylltu â chi i drefnu eich penodiad cyntaf unwaith y bydd dyddiad eich danfoniad cyntaf wedi'i gadarnhau.

Mewn rhai achosion, gallech chi dderbyn ffurflen sgrinio a dolen drwy SMS neu e-bost a fydd yn eich galluogi i drefnu eich ymweliad eich hun. Bydd ambell gwestiwn cyflym yn cael eu gofyn i chi, ac os bydd popeth yn gywir, bydd dyddiad sydd ar gael ar gyfer penodiad yn cael ei ddangos i chi.

Os oes angen cyfieithydd arnoch, neu bod gennych hanes o anaffylacsis, neu os oes unrhyw un o'ch manylion yn wahanol, bydd y system yn rhoi gwybod i'n tîm. Wedyn byddwn ni'n cysylltu'n uniongyrchol â chi i archebu eich ymweliad.

Gellir cynnal penodiadau:

- Wyneb-yn-wyneb gartref neu mewn lleoliad addas arall a gytunwyd
- O bell, drwy Microsoft Teams (gan ddibynnu ar yr anghenion o ran y driniaeth)

Os bydd eich danfoniad cyntaf yn cyrraedd a'ch bod yn disgwyl cefnogaeth nyrs ac heb glywed gennym ni eto, rhowch alwad i 0800 083 3060.

Ar ôl pob penodiad, bydd eich nyrs yn anfon gwerthusiad clinigol i'ch tîm yn yr ysbyty, fel eu bod nhw'n cael y wybodaeth ddiweddaraf yn llawn.



Parhad

# Eich Taith gyda HealthNet






Cam
07

## Gofal Parhaus

Os bydd angen asesiadau nyrsio parhaus neu wiriadau, bydd y rhain yn cael eu trefnu fel rhan o'ch cynllun gofal iechyd.

Byddwch chi'n parhau i dderbyn cefnogaeth, danfoniadau, a chanllawiau drwy'r holl amser y
bydd eich tîm yn yr ysbyty yn argymell gofal yn y cartref.



### Pwysig

Nid yw gofal clinigol yn y cartref yn cymryd lle eich penodiadau ysbyty neu feddyg teulu.


Daliwch i fynychu pob penodiad meddygol sydd wedi'i drefnu er mwyn sicrhau bod eich triniaeth yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

# Rheoli'ch Gwasanaeth

Yn HealthNet, rydyn ni eisiau iddi deimlo'n rhwydd ac yn gyfleus i chi reoli eich gofal yn y cartref. Dyna pam rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio ein hoffer digidol yn gyntaf - dyna'r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o gadw trefn ar eich danfoniadau. Boed hynny ar gyfer archebu slot danfon, diweddaru eich manylion, neu gadw golwg ar eich archeb mewn amser real, mae ap myHealthNet wedi'i gynllunio er mwyn cadw popeth yn syml ac ar flaenau'ch bysedd.

Os bydd angen ychydig o gymorth ychwanegol arnoch chi unrhyw bryd, mae ein Tîm Cefnogi Cleifion yma ar ben arall y ffôn. Mae llawer o bobl yn gweld mai ein hoffer digidol ydy'r opsiwn cyflymaf o ddydd i ddydd, ond gallwch chi ddewis beth sy'n gweithio orau i chi.

Sut bynnag y byddwch chi'n dewis rheoli eich triniaeth, rydyn ni yma i wneud popeth mor esmwyth, hyblyg a di-straen â phosib.




## Pam y Gall Rhai Cleifion Fod Heb Fynediad at Ein Hoffer Digidol

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn gallu defnyddio ein hoffer digidol - megis ap myHealthNet, y Porth Cleifion, neu Ddolen Untro - i reoli eu danfoniadau'n gyflym ac yn rhwydd. Fodd bynnag, gall fod adegau pan fydd ysbyty'r claf yn penderfynu peidio â galluogi mynediad digidol ar gyfer eu triniaeth benodol.

Mae hyn yn gallu digwydd am nifer o resymau, gan gynnwys:


- Math neu lefel cymhlethdod y driniaeth rydych chi'n ei derbyn
- Gwasanaethau cymorth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch meddyginiaeth
- Gofynion diogelwch clinigol neu lywodraethu data o osodwyd gan eich ysbyty

Parhad

# **Rheoli'ch** Gwasanaeth

Os bydd eich ysbyty wedi dewis peidio ag ysgogi mynediad digidol ar gyfer eich triniaeth, efallai y sylwch chi bod rhai nodweddion neu offer ddim ar gael.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â hyn eu eich bod yn teimlo y byddai mynediad digidol yn eich helpu chi, siaradwch yn uniongyrchol â'ch tîm yn yr ysbyty - byddan nhw'n gallu ailedrych ar hyn gyda chi.







Beth bynnag ddaw, byddwch chi bob amser yn gallu trefnu eich danfoniadau a chael cefnogaeth drwy:

+ Ffôn
+ E-bost

Mae ein Tîm Cefnogi Cleifion yma i'ch helpu chi i reoli eich gofal yn y cartref yn y ffordd sy'n gweithio orau i chi.

# Gosod Eich Offer Digidol




## Ap myHealthNet

Sganiwch y Cod QR i gael lawrlwytho'r ap myHealthNet.

Mae ap myHealthNet ar gael i'w lawrlwytho am ddim o'r Apple App Store neu Google Play.

Dyma'r ffordd gyflymaf a rhwyddaf i reoli eich gwasanaeth gofal yn y cartref yn uniongyrchol o'ch ffôn neu ddyfais llechen.

Gydag ap myHealthNet, gallwch chi:

+ Ddiweddaru eich manylion personol
+ Archebu, newid neu ganslo danfoniadau
+ Cadw golwg ar eich archeb a statws eich presgripsiynau mewn amser real
+ Archebu eitemau anfeddygol ychwanegol (ategolion) fel biniau cyfarpar miniog, weips, a nodwyddau

**Pwysig**

Lawrlwythwch qrco.de/myhealthnet → yr ap - hyd yn oed os ydych chi wedi defnyddio myHealthNet o'r blaen.

Parhad

# Rheoli'ch Gwasanaeth



Darllenwch Ganllaw Defnyddwyr Ap myHealthNet, sydd ar gael ar wefan HealthNet dan adnoddau i gleifion.

Yn y canllaw, byddwch chi'n dysgu sut i:

+ Lawrlwytho a gosod yr ap
+ Cofrestru eich cyfrif
+ Canfod eich ffordd drwy'r holl nodweddion sydd ar gael a'u defnyddio

## Porth Cleifion myHealthNet

Os oes well gennych ddefnyddio cyfrifiadur neu sgrin fwy, mae'r Porth Cleifion yn cynnig ffordd ddiogel a rhwydd i reoli'ch danfoniadau.


Bydd angen eich rhif CT unigryw, a anfonwyd atoch chi drwy e-bost, er mwyn cofrestru.

Drwy Borth Cleifion myHealthNet, gallwch chi:

+ Weld danfoniadau sydd ar y gweill a hanes eich archebion
+ Rheoli eitemau anfeddygol (ategolion)
+ Diweddaru eich manylion cysylltu
+ Cyrchu gwybodaeth am gefnogaeth

Ewch i'r Porth Cleifion my.healthnethomecare.co.uk →

## Dolen Ddiogel Untro (OTL)



Petai'n well gennych beidio â chofrestru ar gyfer yr ap neu'r porth, gallwch chi reoli eich danfoniad beth bynnag drwy ddefnyddio dolen untro ddiogel a anfonir drwy SMS, WhatsApp, neu e-bost.

Gyda'r ddolen untro, gallwch chi wneud y canlynol yn awtomatig:

+ Cadarnhau neu newid dyddiad eich danfoniad
+ Diweddaru eich manylion cysylltu
+ Cadw golwg ar statws eich danfoniad

E-bost: enquiries@healthnethomecare.co.uk

Yn HealthNet, rydyn ni wedi gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar flaenau'ch bysedd. Mae ein hoffer digidol wedi'u cynllunio i roi'r ffordd gyflymaf a rhwyddaf i chi ddiweddaru eich manylion, gwirio gwybodaeth am benodiadau, a rheoli eich gofal yn y cartref yn ddiogel.

Fodd bynnag, rydyn ni'n deall y gall fod angen i chi siarad yn uniongyrchol â rhywun ar adegau. Boed hynny oherwydd bod rhywbeth ddim yn gwbl eglur, bod gennych gwestiwn sydd angen cyffyrddiad personol, neu bod yn well gennych gael sgwrs am y mater, mae ein tîm wastad yma i helpu.

## Cysylltu â'r Tîm Cefnogi Cleifion

Mae ein Timau Cefnogi Cleifion a Fferyllol yma i helpu i sicrhau bod rheoli eich triniaeth mor esmwyth â phosib.

Maen nhw'n cynnwys Fferyllwyr, technegwyr Fferyllfa a Chynghorwyr Cefnogi Cleifion hyfforddedig sy'n gallu helpu gyda'ch danfoniadau presgripsiwn a bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Ffôn: 0800 083 3060

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8:00am – 6:00pm

Dydd Sadwrn: 8:00am – 5:00pm

Mae gwasanaeth neges llais ar gael y tu allan i'r oriau hyn.

Bydd negeseuon a gaiff eu gadael yn cael eu casglu ar y diwrnod gwaith nesaf.

E-bost: enquiries@healthnethomecare.co.uk

Pan fyddwch chi'n anfon e-bost aton ni, cofiwch gynnwys:

+ Eich enw llawn
+ Eich rhif CT HealthNet

Mae hyn yn ein helpu ni i ymateb i chi cyn gynted â phosib.

Parhad

# Rheoli'ch Gwasanaeth

## Cysylltu â'r Tîm Gweinyddu Clinigol



Mae ein Tîm Gweinyddu Clinigol ar gael i'ch helpu chi i reoli eich penodiadau nyrsys.

Dydd Llun – dydd Gwener: 8am – 6pm

E-bostiwch:
nursingenquiries@nealthnethomecare.co.uk

Cofiwch gynnwys:

- Eich enw llawn
- Eich rhif CT HealthNet

Neu

Ffoniwch: 0800 083 3060

## Â Phwy y Gallwn Ni Siarad

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn ni'n siarad â chi yn uniongyrchol am eich danfoniadau.

Fodd bynnag, gallwch chi enwebu unigolion awdurdodedig - megis cymar, aelod o'r teulu, neu blentyn sy'n oedolyn (dros 16 oed) - y byddwn ni'n gallu siarad â nhw ar eich rhan.

Os ydych chi'n awyddus i ychwanegu unigolyn awdurdodedig at eich ffeil, rhowch wybod i ni y tro nesaf y byddwch chi'n cysylltu â'r Tîm Cefnogi Cleifion.

Gwefan: www.healthnethomecare.co.uk →



# Eich Danfoniadau – Beth i'w Ddisgwyl

Bydd eich tîm yn yr ysbyty yn anfon eich presgripsiwn aton ni unwaith y byddwch chi wedi cael eich cyfeirio at ofal yn y cartref.

Pan fyddwch chi'n cael eich cyfeirio at HealthNet ar gyfer eich danfoniadau meddyginiaeth, bydd y tîm yn yr ysbyty yn anfon ffurflen gofrestru a phresgripsiwn aton ni.

Mae'r presgripsiwn yn dweud wrthon ni:

+ Faint o feddyginiaeth i'w anfon bob tro
+ Pa mor aml y dylai danfoniadau ddigwydd
+ Faint o ddanfoniadau y bydd eu hangen arnoch chi
+ Am faint o amser mae eich presgripsiwn yn ddilys

Pan fydd y presgripsiwn yn dod i ben neu wedi'i ddefnyddio'n llawn, byddwn ni'n cysylltu â'ch ysbyty i wneud cais am un newydd fel y gall eich triniaeth barhau heb doriad.

## Beth i'w Ddisgwyl Wrth Drefnu Danfoniadau



Pan fyddwn ni'n cysylltu â chi i drefnu eich danfoniad nesaf, byddwn ni'n:

+ Gofyn faint o feddyginiaeth sydd gennych mewn stoc ar y pryd
+ Gweithio gyda chi i ddewis dyddiad addas ar gyfer y danfoniad
+ Cadarnhau eich cyfeiriad danfon

Mae angen llofnod ar y danfoniad

Rhaid i chi - neu eich unigolion awdurdodedig a enwebwyd - fod ar gael ar yr amser a gytunwyd.

Os nad oes unrhyw un ar gael, bydd y danfoniad yn cael ei ddychwelyd i'r fferyllfa a bydd angen ei aildrefnu.

Parhad

# Eich Danfoniadau – Beth i'w Ddisgwyl

## Beth Sy'n Cael ei Gynnwys ym Mhob Danfoniad

Bydd pob danfoniad yn cynnwys:

+ Eich meddyginiaeth a ragnodwyd
+ Taflen Wybodaeth i Gleifion
+ Bin cyfarpar miniog ac unrhyw eitemau anfeddygol eraill y mae eu hangen
+ Bydd nodyn danfon yn cael ei anfon atoch chi trwy e-bost

Os mai dyma'ch danfoniad cyntaf, byddwch chi hefyd yn derbyn:

+ Byddwch chi'n erbyn Canllaw Croeso drwy e-bost neu'r post. Gallwch chi hefyd lawrlwytho copi o'n gwefan yma: bit.ly/4uFAhz4 →
+ Unrhyw wybodaeth am y feddyginiaeth a ddarparwyd gan y gwneuthurwyr (lle bo hynny ar gael)



## Archebu Eitemau Anfeddygol Ychwanegol (Ategolion)

Mae angen eitemau ychwanegol ar gyfer rhai triniaethau, megis rhwymynnau, weips, nodwyddau, neu finiau cyfarpar miniog.

Caiff rhain eu galw'n aml yn ategolion.

+ Bydd eich danfoniad cyntaf yn cynnwys popeth y bydd ei angen arnoch
+ Wedi hynny, gallwch chi archebu eitemau anfeddygol ychwanegol drwy ap MyHealthNet, y Porth Cleifion neu drwy ffonio ein Tîm Cefnogi Cleifion
+ Os nad ydych chi'n siŵr beth sydd ei angen arnoch, ffoniwch ein Tîm Cefnogi Cleifion.

Yn dilyn adborth gan gleifion, rydyn ni nawr yn darparu bin cyfarpar miniog porffor 5L yn safonol ar gyfer y rhan fwyaf o therapïau.



## Pam Mae'n Bwysig Gwybod Am Eich Stoc o Feddyginiaeth

Mae deall faint o feddyginiaeth sydd gennych yn helpu i sicrhau:

+ Nad ydych chi'n rhedeg allan o unrhyw beth cyn eich dos nesaf
+ Bod gennych ddigon o le yn eich oergell (os oes angen)
+ Eich bod yn cynnal pythefnos o fyffer, sy'n rhoi amser i aildrefnu danfoniadau os bydd unrhyw oedi byth

Parhad

# Eich Danfoniadau
# – Beth i'w Ddisgwyl



## Eich Profiad Gyda Danfoniadau

Pwy Fydd yn Danfon Fy Meddyginiaeth?

Bydd eich meddyginiaeth yn cael ei danfon gan: :

01 Yrrwr danfon HealthNet hyfforddedig

- Cerbydau arbenigol LF&E â'u tymheredd wedi'i reoli
- Faniau plaen, heb eu marcio, er mwyn sicrhau preifatrwydd
- Mae'r gyrwyr yn gwisgo gwisg LF&E ac yn cario ID ffotograffig

neu

02 Cwmni cludo cenedlaethol sydd wedi'i gymeradwyo, megis APC Overnight neu'r Post Brenhinol (mewn rhai lleoliadau)

- Mae eitemau ar gyfer yr oergell yn cael eu pacio mewn pecynnau wedi'u hinswleiddio a'u tymheredd wedi'i reoli
- Gallai eitemau tymheredd ystafell gyrraedd mewn parsel ar wahân

Rhaid gosod pob eitem y mae angen eu cadw'n oer yn eich oergell cyn gynted ag y byddwch yn eu derbyn (gweler adran 'Sut i storio'ch meddyginiaeth' am wybodaeth bellach.

## Ble Gellir Gwneud Danfoniadau?



Gellir gwneud danfoniadau i:

- Eich cartref
- Eich gweithle
- Cymydog, ffrind, neu berthynas yr ydych yn ymddiried ynddynt (dros 16 oed)

Gallwch chi newid y cyfeiriad danfon o un danfoniad i'r llall - dim ond i chi roi gwybod i ni ymlaen llaw drwy ap MyHealthNet, y Porth Cleifion neu drwy ffonio'r Tîm Cefnogi Cleifion er mwyn i ni allu cynllunio yn unol â'ch dymuniad.

## Hysbysiadau Danfon

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn derbyn SMS y noson cyn y danfoniad gyda ffenest amser 2-awr.

Os na fyddwch chi'n derbyn y neges hon, neu os ydy eich ardal yn defnyddio cwmni cludo nad ydynt yn darparu ffenestri amser, ffoniwch y Tîm Cefnogi Cleifion ar fore eich danfoniad i gael diweddariad.

## Os Nad Ydych Chi i Mewn Pan Fyddwn Ni'n Danfon

**Pwysig**

Mae eich presenoldeb - neu bresenoldeb eich unigolyn awdurdodedig - yn hanfodol.

- Bydd y gyrrwr yn ceisio cysylltu â chi tra byddwch yn aros
- Os na allwn ni eich cyrraedd chi neu ddanfon yn ddiogel, bydd y danfoniad yn cael ei farcio fel un a fethodd
- Bydd y feddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'n fferyllfa
- Byddwn ni'n cysylltu â chi drwy WhatsApp, SMS, e-bost, neu'r ffôn unwaith y bydd yr eitemau wedi eu cofnodi'n ôl i mewn
- Dim ond wedi hynny y gallwn ni aildrefnu eich danfoniad

Mae danfoniadau sy'n methu yn gallu peri oedi gyda derbyn eich meddyginiaeth, felly sicrhewch os gwelwch chi'n dda bod rhywun ar gael ar yr adeg a gytunwyd.

Parhad

# Eich Danfoniadau – Beth i'w Ddisgwyl



## Danfon i Gyfeiriadau Gwyliau neu Dros Dro

Os ydych chi'n bwriadu teithio o fewn y Deyrnas Unedig:

+ Byddwch cystal â rhoi gwybod i ni o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw
+ Gallwn ni ddanfon i unrhyw gyfeiriad yn y DU
+ Mae modd trefnu danfoniadau drwy'r Porth Cleifion, ap myHealthNet, neu dros y ffôn

Ni allwn ni ddanfon fel arfer y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig, ond bydd ein fferyllwyr yn gallu rhoi cyngor i chi ynglŷn â theithio gyda'ch meddyginiaeth.

Cynghorion Teithio Gwyliau:

+ Gwnewch yn siŵr bod eich yswiriant teithio yn darparu ar gyfer eich anghenion meddygol
+ Paciwch feddyginiaethau yn eu pecynnau gwreiddiol
+ Ewch â llythyr teithio gyda chi os oes angen (gallwn ni ddarparu hwn)

## Eich Profiad Gyda Danfoniadau

Unwaith y bydd eich parsel yn cyrraedd:

01 Gwiriwch fod pob eitem yno

02 Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw ddifrod a bod popeth yn edrych fel y dylai

03 Cadarnhewch fod eich enw a'ch manylion yn gywir ar y labeli

04 Cyfeiriwch at y nodyn danfon a gafodd ei e-bostio ar wahân
Mae eitemau ar gyfer yr oergell yn cael eu pacio mewn pecynnau wedi'u hinswleiddio a'u tymheredd wedi'i reoli.

Os bydd unrhyw beth:

+ Yn eisiau
+ Wedi'i ddifrodi
+ Yn anghywir

Cysylltwch â'n Tîm Cefnogi Cleifion ar unwaith ar

0800 083 3060 neu
enquiries@healthnethomecare.co.uk

Os oes modd, cynhwyswch ffotograffau - a pheidiwch â chael gwared ar unrhyw eitemau cyn i ni'ch cynghori chi



# Sut i **Storio'ch Meddyginiaeth yn Ddiogel**

Mae'n hanfodol eich bod yn cadw'ch meddyginiaeth ar y tymheredd cywir er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Dilynwch y cyfarwyddiadau storio a ddarperir bob amser a chysylltwch â ni os byddwch chi'n ansicr unrhyw bryd.

## Cynghorion Cyffredinol ar Gyfer Storio'n Ddiogel

- Cylchdrowch eich stoc: Defnyddiwch y pecynnau sydd â'r dyddiad dod i ben cynharaf yn gyntaf.
- Gwiriwch y cyfarwyddiadau bob tro: Mae angen amodau storio gwahanol ar gyfer meddyginiaethau gwahanol.
- Darllenwch y label: Bydd blwch y cynnyrch, y label presgripsiynu, a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn dweud wrthoch chi yn union sut dylid storio eich meddyginiaeth..
- Gofynnwch os byddwch chi'n ansicr Mae ein Tîm Cefnogi Cleifion yma i'ch helpu gyda chwestiynau am storio meddyginiaethau (nid cyngor meddygol - eich tîm yn yr ysbyty sy'n delio â chwestiynau clinigol).




## Meddyginiaethau NAD Oes Angen Eu Cadw Mewn Oergell

Storiwch nhw ar dymheredd ystafell, fel arfer islaw 25°C, oni bai bod eich cyfarwyddiadau yn dweud yn wahanol.

Cadwch nhw:

- Mewn man claear, sych
- I ffwrdd o heulwen, rheiddiaduron, poptai, neu lefydd tân
- Allan o gyrraedd plant ac anifeiliaid anwes

Parhad

# Sut i Storio'ch Meddyginiaeth yn Ddiogel

## Meddyginiaethau y MAE Angen Eu Cadw Mewn Oergell

Mae angen i rai meddyginiaethau gadw'n oer er mwyn parhau'n effeithiol.

Pan fydd eich danfoniad yn cyrraedd

+ Rhowch eitemau a gedwir yn oer yn eich oergell cyn gynted â phosib.
+ Bydd y meddyginiaethau hyn yn cyrraedd mewn pecynnau arbennig wedi'u hinswleiddio neu mewn cerbyd ag oergell.

Sut i'w storio gartref

+ Rhowch nhw ym mhrif adran yr oergell rhwng +2˚C a +8˚C
+ Peidiwch â'u storio nhw yn nrws yr oergell (mae'r tymheredd yn amrywio)
+ Peidiwch â'u storio yn agos at yr adran rhewgell
+ Peidiwch byth â rhewi'ch meddyginiaeth

## Cyn Defnyddio Meddyginiaethau A Gedwir Mewn Oergell

Mae angen amser ar rai meddyginiaethau i gynhesu ychydig cyn eu defnyddio.

Os na fyddwch chi'n siŵr am ba hyd i adael eich meddyginiaeth allan o'r oergell cyn ei chymryd, cysylltwch â'n Tîm Nyrsio:

0800 083 3060

Neu ewch i: healthnethomecare.co.uk/healthnet-nursing-service →

Dilynwch y cyfarwyddiadau a ddarperir gyda'ch meddyginiaeth benodol bob amser.



## Os Aiff Rhywbeth O'i Le

Os byddwch chi'n meddwl y gallai eich meddyginiaeth fod wedi'i heffeithio gan:

+ Yr oergell yn torri i lawr
+ Toriad pŵer
+ Rhewi ar ddamwain
+ Cael ei gadael allan yn rhy hir

Cysylltwch â'n Tîm Cefnogi Cleifion ar unwaith.

0800 083 3060

enquiries@healthnethomecare.co.uk

Peidiwch â defnyddio na gwaredu'r feddyginiaeth nes byddwn ni wedi'ch cynghori chi.

## Sgil-effeithiau a Phroblemau gyda Chynnyrch

Fel rhan o'ch gwasanaeth gofal yn y cartref, mae angen i HealthNet gasglu gwybodaeth sy'n helpu i gadw meddyginiaethau yn ddiogel. Mae hynny'n cynnwys unrhyw beth y byddwch yn ei brofi wrth gymryd eich meddyginiaeth - hyd yn oed os nad yw'n ymddangos fel petai'n gysylltiedig â'ch cyflwr - yn ogystal ag unrhyw broblemau gyda'r feddyginiaeth neu'r ddyfais sy'n dod gyda'r feddyginiaeth.

Caiff y rhain eu galw'n Ddigwyddiadau Niweidiol, Adweithiau Niweidiol i Gyffuriau, neu Gwynion am Ansawdd Cynnyrch.

Parhad

# Sut i Storio'ch Meddyginiaeth yn Ddiogel



## Os Byddwch Chi'n Profi Sgil-effeithiau

Os byddwch chi'n meddwl y gallech fod yn profi sgil-effaith i'ch meddyginiaeth:

01 Cysylltwch â'ch tîm yn yr ysbyty neu'ch meddyg teulu ar unwaith. Byddan nhw'n rhoi cyngor clinigol i chi ac yn penderfynu beth i'w wneud nesaf

02 Gallwch chi roi gwybod am sgil-effeithiau yn uniongyrchol hefyd i'r MHRA drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn: www.mhra.gov.uk/yellowcard neu drwy ap Yellow Card.

Mae rhoi gwybod am sgil-effeithiau yn helpu i wella diogelwch meddyginiaeth i bawb sy'n ei defnyddio.

## Os Byddwch Chi'n Sylwi ar Broblem Gyda'ch Meddyginiaeth neu Ddyfais

Gallai cwyn am ansawdd cynnyrch gynnwys:

+ Problemau gyda'r pecynnu: blwch wedi'i ddifrodi, label anghywir, taflen yn eisiau
+ Problemau gyda'r feddyginiaeth: golwg anarferol, arogl anarferol, neu dewychedd annisgwyl
+ Problemau gyda dyfeisiau: pinnau chwistrellu, chwistrellwyr, nodwyddau, neu ddyfeisiau chwistrellu nad ydynt yn gweithio yn ôl y disgwyl

Beth i'w wneud

01 Storiwch y feddyginiaeth yn ddiogel a dilynwch ei chyfarwyddiadau storio arferol.

02 Cysylltwch â'n Tîm Cefnogi Cleifion ar unwaith.

03 Peidiwch â gwaredu'r feddyginiaeth na'r ddyfais. Efallai y bydd angen i ni drefnu eu casglu er mwyn i'r gwneuthurwr gael ymchwilio.

Mae'r gwiriadau hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau yn bodloni safonau ansawdd llym ac yn helpu i ganfod unrhyw faterion y gellir eu gwella.



# **Gwasanaeth Nyrsio HealthNet –** Eich cefnogi ar bob cam o'r ffordd

Yn HealthNet, mae ein gwasanaeth nyrsio yma i wneud eich taith gyda'ch triniaeth mor syml, diogel a chefnogol â phosib.

Mae ein nyrsys yn ymroddedig i'ch helpu chi i deimlo'n hyderus gyda'ch meddyginiaeth - boed hynny'n golygu eich dysgu sut i'w rhoi, eich cefnogi yn ystod y driniaeth, neu fod ar gael pan fydd angen cyngor arnoch.

## Sut Mae Ein Tîm Nyrsio yn Gallu Eich Cefnogi

### Penodiadau Wyneb-yn-wyneb

Gall nyrs HealthNet ymweld â chi gartref i:

- Egluro eich meddyginiaeth a sut mae'n gweithio
- Dangos i chi sut i roi eich triniaeth
- Aros gyda chi nes byddwch chi'n teimlo'n gwbl hyderus

Mae hyn yn golygu llai o deithiau i'r ysbyty a mwy o ofal yn eich cartref cysurus eich hun.

### Penodiadau Nyrsio o Bell

Mae modd cefnogi rhai triniaethau drwy benodiad fideo neu ffôn. Caiff ymgynghoriadau o bell eu cynnal gan nyrsys HealthNet iawn. Mae'r penodiadau hyn yn ddelfrydol ar gyfer:

- Hyfforddiant ar roi pigiadau
- Gwirio techneg neu ffordd o baratoi dos
- Adolygu cynnydd
- Ateb cwestiynau am y driniaeth (o fewn cwmpas y cynllun sydd wedi'i bresgripsiynu i chi)

### Cefnogaeth Dros y Ffôn

Os oes gennych chi gwestiynau neu bod angen tawelu eich meddwl, mae ein nyrsys ar ben arall y ffôn.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi i deimlo'n ddiogel a'ch bod yn cael eich cefnogi drwy gydol eich triniaeth.

### Ein Safonau Gofal

Gallwch chi deimlo'n hyderus gan wybod bod pob un o nyrsys HealthNet:

- Wedi'u hyfforddi i safon uchel ac yn brofiadol
- Wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
- Yn cael eu rheoleiddio gan gyrff cenedlaethol, gan gynnwys:
  - Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) – Lloegr
  - Arolygaeth Gofal Yr Alban (CIS)
  - Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) – Gogledd Iwerddon

Parhad

# Gwasanaeth Nyrsio HealthNet – Eich cefnogi ar bob cam o'r ffordd

Mae pob un o'n nyrsys yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau cyson ar therapïau, ynghyd â hyfforddiant ar:

- Ddiogelu
- Atal a rheoli heintiadau
- Gwyliadwriaeth ffarmacolegol (monitro diogelwch meddyginiaethau)

Mae hyn yn sicrhau y byddwch chi bob amser yn derbyn gofal diogel, o ansawdd uchel.

## Sut Rydyn Ni'n Eich Cadw Chi'n Ddiogel

- Mae'r nyrsys yn defnyddio systemau electronig diogel i weld eich presgripsiwn yn ystod yr ymweliadau
- Mae pob penodiad a diweddariad yn cael eu hychwanegu at eich cofnod claf
- Mae eich tîm yn yr ysbyty yn derbyn y diweddariadau hyn, felly mae ganddynt ddarlun clir o'ch cynnydd bob amser
- Mae'r cyfathrebu agos hwn yn helpu eich tîm gofal iechyd i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eich gofal.

## Cefnogaeth Wedi'i Theilwra ar gyfer Eich Anghenion

Mae pob claf yn wahanol. Dyna pam mae ein cefnogaeth nyrsio yn hyblyg ac wedi'i bersonoli.

Rydyn ni'n cynnig:

- Hyfforddiant ar gyflymder sy'n gweddu i chi
- Trefniadau ymweliadau wedi'u teilwra yn ôl eich triniaeth chi
- Cefnogaeth ychwanegol pan mae fwyaf o'i hangen arnoch chi

Mae'r rhaglenni hyn yn helpu i ddatblygu hyder, lleihau straen, a'ch cynorthwyo chi i aros ar y trywydd iawn gyda'ch triniaeth.

Os byddwch chi'n teimlo bod angen hyfforddiant neu gefnogaeth bellach arnoch chi, ar ôl eich ymweliad cyntaf gan nyrs, gallwch chi gysylltu â ni ar:

0800 083 3060 neu drwy e-bostio: nursingenquiries@healthnethomecare.co.uk

## Cefnogaeth Arbenigol ar gyfer Cyflyrau Prin

Os oes gennych gyflwr prin, cyflwr a esgeuluswyd, neu gyflwr cymhleth, gallwn ni gynllunio llwybr gofal wedi'i bersonoli er mwyn sicrhau bod eich anghenion yn cael eu bodloni mewn modd diogel
a sensitif.

## Os Bydd Angen Help Arnoch Chi

Mae ein Tîm Gweinyddu Clinigol ar gael i'ch helpu chi i reoli eich penodiadau nyrsys.

Dydd Llun – dydd Gwener:
8am – 6pm


E-bostiwch:
nursingenquiries@
healthnethomecare.co.uk

Cofiwch gynnwys:

+ Eich enw llawn
+ Eich rhif CT HealthNet

Neu

Ffoniwch: 0800 083 3060



# Rydych Chi Mewn **Dwylo Diogel**

Yn HealthNet, eich diogelwch, eich cysur, a'ch lles chi sy'n dod gyntaf.

Ers 2015, rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r GIG i gefnogi miloedd o gleifion ledled y Deyrnas Unedig.

Mae ein nyrsys, fferyllwyr, a thechnegwyr fferyllol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod rheoli eich triniaeth yn y cartref mor syml a di-straen â phosib - er mwyn i chi gael canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf: eich iechyd.



## Ein Hymrwymiad i'ch Gofal

Rhoi Diogelwch yn Gyntaf

Mae eich meddyginiaethau, cyfarpar, a phresgripsiynau yn cael eu rheoli yn unol â safonau a rheoliadau cenedlaethol llym. Mae pob danfoniad a phenodiad yn dilyn gwiriadau diogelwch clir er mwyn sicrhau bod eich triniaeth yn cael ei thrin yn gywir ac yn ddiogel.

Cefnogaeth Glinigol Arbenigol

Mae ein tîm nyrsio wedi'u hyfforddi i safon uchel, maent yn brofiadol, ac yn cael eu rheoleiddio'n broffesiynol. P'un ai yw'ch penodiad yn digwydd yn eich cartref neu o bell, byddwch chi'n derbyn gofal arbenigol wedi'i deilwra yn unol â'ch cynllun triniaeth.

Gwasanaeth Wedi'i Adeiladu O'ch Cwmpas Chi

Rydyn ni'n cymryd amser i ddod i ddeall eich anghenion a'ch dewisiadau. Mae ein tîm yn gweithio gyda chi i wneud eich taith gyda'ch triniaeth mor syml â phosib ac i dawelu'ch meddwl.

Parhad

# Rydych Chi Mewn Dwylo Diogel

## Sut Rydyn Ni'n Cael Ein Rheoleiddio

Mae gwasanaethau HealthNet yn cael eu monitro'n ofalus gan reoleiddwyr cenedlaethol er mwyn sicrhau safonau diogelwch, ansawdd, a phroffesiynoldeb uchel.

Rydyn ni'n cael ein rheoleiddio gan:

care inspectorate

Arolygiaeth Gofal yr Alban

General Pharmaceutical Council

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)

The Regulation and Quality Improvement Authority

Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA) – Gogledd Iwerddon

Medicines & Healthcare products Regulatory Agency

Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)

ico. Information Commissioner's Office

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Inspected and rated Good CareQuality Commission

Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) – Lloegr

Home Office

Y Swyddfa Gartref

Mae'r sefydliadau hyn yn gosod ac yn gorfodi rheolau sy'n ymwneud â:

+ Sut caiff meddyginiaethau eu harchebu, eu storio, eu pecynnu a'u danfon
+ Rheoli a rhoi presgripsiynau
+ Gofal nyrsio yn y cartref ac o bell
+ Gwiriadau diogelwch cleifion ac adrodd am ddigwyddiadau
+ Diogelu eich gwybodaeth bersonol (GDPR)
+ Sut yr ymdrinnir â phryderon a chwynion



## Safonau a Hyfforddiant Proffesiynol

Mae holl nyrsys HealthNet wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ac maent yn cwblhau hyfforddiant rheolaidd ar:

+ Diogelu
+ Atal a rheoli heintiadau
+ Gwyliadwriaeth ffarmacolegol (monitro diogelwch meddyginiaethau)
+ Diogelu data
+ Safonau gofal yn y cartref y GIG

Mae'r hyfforddiant parhaus hwn yn sicrhau bod eich gofal yn parhau'n ddiogel, gyda'r arferion diweddaraf, ac yn cael ei ddarparu yn unol â'r safonau proffesiynol uchaf.

Parhad

# **Gofal o Ansawdd** yn HealthNet



## Aelodaethau a Phartneriaethau

Rydyn ni'n falch o fod yn aelodau o:

Y Gymdeithas Gofal Clinigol yn y Cartref Genedlaethol (NCHA)

Y Gymdeithas Fferylliaeth Genedlaethol (NPA)

Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag ymddiriedaeth mewn partneriaeth â:

Y GIG

LF&E, ein partner logisteg arbenigol

Mae'r partneriaethau hyn yn ein helpu i ddarparu gofal diogel, dibynadwy ac amserol i bob claf.

## Archwiliadau a Sicrhau Ansawdd

Er mai sefydliad preifat ydy HealthNet, rydyn ni'n dilyn yr un safonau uchel a ddisgwylir yn y GIG.

Er mwyn cynnal ansawdd a diogelwch:

- Mae ein gwasanaethau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd
- Mae cyrff rheoleiddio a phartneriaid ffarmacolegol yn gwirio ein bod yn cydymffurfio
- Mae prosesau'n cael eu hadolygu er mwyn canfod a gwneud gwelliannau

Mae hyn yn golygu bod pob rhan o'n gwasanaeth yn cael ei monitro'n barhaus er sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd.

## Parch a Chwrteisi

Mae pawb yn HealthNet yn ymrwymedig i gefnogi eich gofal gyda phroffesiynoldeb a charedigrwydd.

Gofynnwn yn garedig i unrhyw ryngweithio gyda'n tîm fod yn barchus.

Er mwyn diogelu ein staff a chleifion eraill, rydym yn cadw'r hawl i atal gwasanaethau os bydd rhywun yn ymddwyn mewn modd treisgar, bygythiol neu ymosodol.

## Eich Rôl Chi mewn Gofal o Ansawdd

Rydych chi'n chwarae rhan bwysig yn ein helpu i ddarparu gofal diogel a dibynadwy yn y cartref. Gofynnwn i chi:

+ Storio'ch meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau
+ Cadw at benodiadau a drefnwyd (a rhoi gwybod i ni os bydd eich cynlluniau'n newid)
+ Rhannu adborth – mae eich profiad yn ein helpu ni i wella

E-bost:
feedback@healthnethomecare.co.uk




# **Sut i leisio pryder** neu roi adborth i ni

Yn Gofal yn y Cartref Healthnet, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel gyda pharch a thosturi. Mae eich adborth yn ein helpu ni i wella a thyfu. Boed hynny gydag awgrym, gair o ganmoliaeth, neu bryder, rydyn ni'n gwerthfawrogi clywed eich llais.  Rydyn ni'n gweld pob adborth, pryder a chŵyn yn gyfleoedd i ddysgu a gwneud yn well, er eich mwyn chi a'n holl gleifion.

Gallwch fod yn sicr y bydd eich adborth yn cael ei drin yn gyfrinachol ac na fydd yn effeithio ar y gofal a gewch chi.



## Darparu adborth



Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi roi adborth, gall hyn fod dros y ffôn gydag un o'n Cynghorwyr Cefnogi Cleifion neu gallwch chi fynd i'n tudalen TrustPilot. Rydyn ni hefyd yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg blynyddol gan y GIG, lle caiff y canlyniadau eu cyhoeddi a'u rhannu gyda'n comisiynwyr yn y GIG sy'n gyfrifol am eich gofal.

Bydd ein tîm Nyrsio hefyd yn anfon gwahoddiadau ar ôl ymweliad nyrsio er mwyn i ni allu adolygu a gwella ein gwasanaethau clinigol.

Os oes gennych bryder neu fater sydd angen sylw brys. Rydyn ni'n ceisio datrys pob cwestiwn, problem neu bryder sydd gan gleifion yn gyflym ac mae ein Tîm Cefnogi Cleifion yma i helpu, ffoniwch ni ar unwaith:

0800 083 3060

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8:00am – 6:00pm

Dydd Sadwrn: 8am - 5pm

## Os oes gennych bryderon o hyd

Os byddwch chi'n teimlo nad ydyn ni wedi gallu datrys eich problem neu bryder, gofynnwch am gael siarad ag un o'n Rheolwyr Cefnogi Cleifion. Os nad ydyn nhw ar gael, byddwn ni'n trefnu iddyn nhw roi galwad yn ôl i chi cyn gynted â phosib. Byddan nhw'n gwrando ar eich pryderon ac yn rhoi cefnogaeth ar gyfer datrys y broblem, os bydd angen, gallan nhw gychwyn y broses gwyno ffurfiol i chi.

Parhad

# Sut i leisio pryder neu roi adborth i ni



**Os byddwch yn dymuno gwneud Cwyn Ffurfiol**

Ein Tîm Adborth sy'n ymdrin â phob cwyn ffurfiol. Gallwch chi gysylltu â nhw drwy:

E-bost: feedback@healthnethomecare.co.uk

Post:
HealthNet Homecare (UK) Limited
Unit 1 & 2 Alfred Eley Close
Swadlincote, DE11 0WU

Cofiwch gynnwys:

Eich enw
Eich rhif CT
Manylion y broblem

Cynhwyswch y geiriau 'Cwyn Ffurfiol' yn nheitl yr e-bost.

**Beth Sy'n Digwydd Nesaf?**

Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn 3 diwrnod gwaith.

Gallai un o'n Eiriolwyr Cleifion gysylltu â chi i wneud yn siŵr ein bod yn deall eich pryderon yn iawn.

Rydyn ni'n anelu at roi ymateb ysgrifenedig llawn o fewn 30 diwrnod gwaith. Os bydd angen rhagor o amser arnon ni, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ac yn cadarnhau pryd y gallwch chi ddisgwyl ymateb.

## Os Nad Ydych Chi'n Fodlon

Os byddwch chi'n anfodlon â'n hymateb ni:


Cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion yn eich ymateb ysgrifenedig.

Byddwn ni'n adolygu eich pryderon ac yn darparu ymateb wedi'i ddiweddaru neu'n egluro sut yr aethpwyd i'r afael â nhw.

Os na fyddwch chi'n fodlon o hyd, gallwch chi uwchgyfeirio eich cwyn at y Pennaeth Optimeiddio Cleifion a Chwsmeriaid. Byddan nhw'n cysylltu â chi i drafod a cheisio canfod datrysiad.

## Cefnogaeth Allanol

Os byddwch chi'n dal yn teimlo nad ydy'ch cwyn wedi'i ddatrys, gallwch chi gysylltu â:



Cymru a Lloegr

Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd
www.ombudsman.org.uk
Ffôn: 0345 015 4033

Yr Alban

Arolygaeth Gofal
www.careinspectorate.com
Ffôn: 0345 600 9527

Neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban (SPSO)

www.spso.org.uk
Ffôn: 0800 377 7330

Gogledd Iwerddon

Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd
www.rqia.org.uk
Ffôn: 028 9536 1111

Neu Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

www.nipso.org.uk
Ffôn: 0800 34 24 34

Parhad

# Sut i leisio pryder neu roi adborth i ni



**Dysgu a Gwella Gyda'n Gilydd**

Mae eich adborth yn bwysig i ni. Mae pob sylw, cwyn, neu awgrym yn ein helpu ni i ddeall ble gallwn ni wella a gwneud newidiadau ystyrlon. Rydyn ni'n ystyried ac yn cofnodi pob pryder yn ofalus, yn tracio tueddiadau, ac yn rhannu mewnwelediadau gydag uwch arweinwyr. Mae hyn yn ein galluogi i ddiweddaru gweithdrefnau, hyfforddi a chefnogi ein staff, a gwella'r profiad i'r holl gleifion. Rydyn ni'n monitro gwelliannau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud gwir wahaniaeth ac rydyn ni'n adrodd amdanynt yn ein hadolygiadau ansawdd a diogelwch. Diolch yn fawr i chi am ein helpu i ddarparu gwell gofal.

# **Eich Cyfrifoldebau** fel Claf HealthNet

I'n helpu ni i ddarparu gofal diogel, dibynadwy ac amserol i chi, mae gennych chi ychydig o gyfrifoldebau pwysig fel rhan o'ch gwasanaeth gofal yn y cartref. yn cefnogi eich iechyd, llesiant, a hyder yn eich triniaeth.

Parhad

# Eich Cyfrifoldebau fel Claf HealthNet

Mae'r camau hyn yn helpu i sicrhau na fyddwch chi fyth yn rhedeg allan o feddyginiaethau, eich bod yn derbyn y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn, ac yn cadw'n ddiogel drwy gydol eich triniaeth.

Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar bob cam o'r ffordd - a thrwy weithio gyda'n gilydd, gallwn ni wneud eich profiad gofal yn y cartref mor llyfn a di-straen â phosib.

## Cadw Cysylltiad

Er mwyn cadw eich gwasanaeth i fynd yn llyfn, byddwch cystal â:

+ Bod ar gael ar gyfer galwadau gan ein Tîm Cefnogi Cleifion pan fydd angen i ni drefnu neu gadarnhau danfoniadau.
+ Dychwelyd ein galwadau os byddwch chi'n ein methu ni - neu gadarnhau eich danfoniad pan ofynnir i chi wneud hynny drwy'r Porth Cleifion neu ap myHealthNet.
+ Bod ar gael i'n Tîm Nyrsio gysylltu â chi os yw'ch triniaeth yn cynnwys cefnogaeth nyrsio a dychwelyd galwadau os byddwn ni'n ceisio cysylltu â chi.

## Bod yn Barod ar Gyfer Danfoniadau a Phenodiadau



Byddwch cystal â sicrhau:

+ Eich bod chi neu unigolyn awdurdodedig (dros 16 oed) yn y lleoliad a gytunwyd ar yr amser a drefnwyd ar gyfer danfoniad.
+ Eich bod chi ar gael ar yr amser a gytunwyd ar gyfer unrhyw ymweliad gan nyrs, ymweliad rhithiol, neu alwad i roi cefnogaeth glinigol.
+ Eich bod yn rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosib os bydd eich cynlluniau'n newid.

Mae hyn yn helpu i osgoi oedi wrth gael eich meddyginiaeth atoch chi ac yn osgoi'r angen i aildrefnu

## Defnyddio'ch Meddyginiaeth yn Ddiogel



Er mwyn cadw'ch triniaeth yn ddiogel ac ar y trywydd iawn, byddwch cystal â:

- Storio eich meddyginiaeth yn gywir, gan ddilyn y cyfarwyddiadau storio a ddarperir.
- Darparu gwiriad stoc pan fydd y Tîm Cefnogi Cleifion yn gofyn am hynny - mae hyn yn helpu i sicrhau na fyddwch chi fyth yn rhedeg allan.
- Dweud wrthon ni neu eich tîm yn yr ysbyty ar unwaith os byddwch chi'n meddwl bod problem gyda'ch meddyginiaeth, eich dos, neu'r danfoniad.
- Peidio â gwaredu unrhyw feddyginiaeth nac eitemau anfeddygol (ategolion) yr ydych yn tybio bod rhywbeth yn bod arnynt. Byddwch cystal â'u storio'n ddiogel nes byddwn ni'n eich cynghori chi - efallai y bydd angen i ni eu casglu er mwyn eu harchwilio.

## Rhoi Gwybod am Bryderon Diogelwch

Rydych chi'n chwarae rôl hollbwysig yn helpu i gadw meddyginiaethau yn ddiogel.

Cofiwch roi gwybod am:

- Unrhyw Ddigwyddiadau Niweidiol neu sgil-effeithiau i'ch tîm yn yr ysbyty neu'ch meddyg teulu.
- Unrhyw bryderon ynglŷn ag ansawdd cynnyrch (e.e. pecynnau wedi'u difrodi, dyfeisiau â nam arnynt) i HealthNet cyn gynted â phosib.

Mae adrodd yn ddi-oed yn helpu i'ch diogelu chi ac yn gwella diogelwch i gleifion eraill.

## Cynllunio Ymlaen Llaw

Os byddwch chi'n teithio:

- Byddwch cystal â rhoi gwybod i ni neu eich tîm yn yr ysbyty mor fuan â phosib, yn ddelfrydol o leiaf 4 wythnos cyn i chi fynd.
- Mae hyn yn ein galluogi i drefnu meddyginiaeth ychwanegol neu addasu cynlluniau danfon, fel bod popeth sydd ei angen arnoch chi gennych chi tra byddwch chi oddi cartref.



## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae eich gwasanaeth gofal yn y cartref yn bartneriaeth rhyngoch chi, eich tîm yn yr ysbyty, a HealthNet.

Drwy gadw cysylltiad, paratoi ar gyfer danfoniadau, storio eich meddyginiaethau yn ddiogel, a rhoi gwybod am unrhyw broblemau, rydych chi'n ein helpu ni i ddarparu'r gofal gorau posib.

Os bydd angen cymorth arnoch chi gydag unrhyw un o'ch cyfrifoldebau, neu os bydd rhywbeth yn teimlo'n anodd, rhowch wybod i ni - rydyn ni wastad yma i'ch cefnogi chi.

# Mae Eich **Preifatrwydd yn Bwysig**

Rydyn ni'n deall pa mor bwysig ydy eich preifatrwydd chi, ac rydyn ni'n ofalus iawn yn diogelu unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi.

Rydyn ni'n deall pa mor bwysig ydy eich preifatrwydd chi, ac rydyn ni'n ofalus iawn yn diogelu unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi.



Mae ein Polisi Preifatrwydd yn egluro sut rydyn ni'n casglu, defnyddio, cadw, a diogelu eich gwybodaeth drwy gydol eich taith gofal yn y cartref. Gallwch ei ddarllen yn:

www.healthnethomecare.co.uk/privacy-policy →

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei thrin, neu petaech chi'n dymuno arddel eich hawliau diogelu data, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

dpo@healthnethomecare.co.uk

0800 083 3060

Rydyn ni'n ymrwymedig i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel a'i thrin â gofal o'r radd uchaf.

# Sut i **Gysylltu â Ni**

Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi drwy gydol eich taith gofal yn y cartref.

Gan ddibynnu ar y mater y bydd angen help arnoch ar ei gyfer, mae ffyrdd gwahanol o gysylltu.

Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi drwy gydol eich taith gofal yn y cartref.

Gan ddibynnu ar yr hyn y mae angen help arnoch ar ei gyfer, mae ffyrdd gwahanol o gysylltu.

## Tîm Cefnogi Cleifion

Ar gyfer help gyda danfoniadau, gwiriadau stoc, eitemau anfeddygol (ategolion), neu ymholiadau cyffredinol gofal yn y cartref:

enquiries@healthnethomecare.co.uk

0800 083 3060

## Tîm Nyrsio

Ar gyfer ymholiadau am eich penodiad nyrs, cysylltwch â'n Tîm Gweinyddu Clinigol:

Dydd Llun – dydd Gwener: 8am – 6pm

E-bostiwch: nursingenquiries@healthnethomecare.co.uk

Cofiwch gynnwys:

+ Eich enw llawn
+ Eich rhif CT HealthNet

Neu

Ffoniwch: 0800 083 3060

## Sgil-effeithiau neu Adweithiau Niweidiol

Os byddwch chi'n profi unrhyw sgil-effeithiau:

+ Siaradwch â'ch tîm clinigol yn yr ysbyty neu eich meddyg teulu cyn gynted â phosib. Byddan nhw'n gallu eich cynghori chi ynglŷn â'ch triniaeth a beth i'w wneud nesaf.

## Rhoi Gwybod am Feddyginiaeth neu Ddyfais Â Nam

Os ydych chi'n meddwl bod eich meddyginiaeth neu'ch dyfais chwistrellu wedi'i difrodi neu ddim yn gweithio
yn unol â'r disgwyl:

enquiries@healthnethomecare.co.uk

0800 083 3060

Peidiwch â gwaredu'r eitem nes byddwn ni wedi'ch cynghori chi.



Parhad

# Sut i
# Gysylltu â Ni

## Gwneud Cwyn

Os oes gennych bryderon am eich gwasanaeth a'ch bod yn awyddus i wneud cwyn:

enquiries@healthnethomecare.co.uk

(Cynhwyswch eich enw llawn a'ch rhif CT.)

## Ymholiadau Diogelu Data

Ar gyfer cwestiynau ynglŷn â'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio neu ei chadw:

dpo@healthnethomecare.co.uk

0800 083 3060


HealthNet
HealthNet
HealthNet
HealthNet

# Nodiadau

HealthNet

www.healthnethomecare.co.uk

© HealthNet Homecare (UK) Ltd